Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

COVID-19 a Chadw Gwenyn

At bawb sy'n cadw gwenyn

Cofiwch ddilyn y canllawiau newydd hyn wrth edrych ar ôl eich gwenyn mêl.

Mae Llywodraeth Cymru, Defra a Llywodraeth yr Alban yn gofyn i chi fel ceidwaid gwenyn fod yn gyfrifol a dal ati i gadw at yr arferion gwenyna gorau, rheoli'ch stoc yn effeithlon a chynnal archwiliadau iechyd gan gadw yr un pryd at Ganllawiau'r Llywodraeth ar COVID-19.

Dylech ddilyn canllawiau Iechyd y Cyhoedd ar gadw pellter cymdeithasol, ymgasglu gyda phobl eraill ac unrhyw fesurau yn eich ardal i leihau'r perygl o ledaenu COVID-19.

Cymru: https://llyw.cymru/coronafeirws
Lloegr: https://www.gov.uk/coronavirus
Yr Alban: https://www.gov.scot/coronavirus-covid-19/

Dyma gyngor cyffredinol i geidwaid gwenyn:

- Os oes angen ichi hunanynysu, naill ai am
    - fod gennych symptomau'r coronafeirws, mwyn neu ddifrifol
    - eich bod wedi cael canlyniad positif i brawf coronafeirws – mae hyn yn golygu'ch bod wedi dal coronafeirws
    - eich bod yn byw gyda rhywun sydd â symptomau neu sydd wedi cael prawf positif
    - bod rhywun yn eich swigen gefnogi â symptomau neu wedi cael prawf positif
    - bod Profi ac Olrhain y GIG neu ap COVID-19 y GIG wedi dweud wrthych i hunanynysu
    - eich bod wedi bod dramor a bod angen ichi fynd i gwarantin ar ôl dychwelyd

    rhaid ichi ddilyn y Canllawiau Iechyd Cyhoeddus ynghylch hunanynysu neu ynysu'ch aelwyd.

Cymru: https://llyw.cymru/hunanynysu-canllawiau-aros-gartref-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl
Lloegr: https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-stay-at-home-guidance
Yr Alban: https://www.gov.scot/publications/coronavirus-covid-19-test-and-protect/

Am ganllawiau ynghylch teithio i wledydd tramor a dychwelyd adref, gweler:

Cymru: https://llyw.cymru/teithio-tramor-dychwelyd-adref
Lloegr: https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus#if-youre-abroad-and-you-want-to-return-to-the-uk

Yr Alban: https://www.gov.uk/guidance/travel-advice-novel-coronavirus

Os ydych chi'n gyfrifol am ofalu am wenyn, gwnewch drefniadau i rywun arall allu gofalu amdanyn nhw rhag ofn y byddwch chi neu'ch teulu neu'ch staff yn mynd yn sâl neu'n methu â gofalu amdanyn nhw. Os nad oes modd trefnu hyn, rydym yn eich cynghori i ofalu am les ac anghenion mwyaf sylfaenol eich gwenyn yn unig a pheidio â dod i gysylltiad â phobl eraill a chadw at gyngor y Llywodraeth ar leihau'r perygl o ledaenu COVID-19.

Os oes gennych symptomau COVID-19, dylech drefnu prawf.

Rydyn ni'n awgrymu bod cymdeithasau lleol yn ystyried sut y gallen nhw helpu'r rheini sy'n gorfod cysgodi neu hunanynysu neu sy'n methu â gofalu am eu gwenyn yn y cyfnod anodd hwn i bawb.

https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/when-to-self-isolate-and-what-to-do/

https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/testing-and-tracing/nhs-test-and-trace-if-youve-been-in-contact-with-a-person-who-has-coronavirus/

Os nad oes rhaid ichi hunanynysu:

- Dylech barhau i weithio a gofalu am eich anifeiliaid fel arfer, cyn belled ag sy'n bosibl. Peidiwch â dilyn mesurau all peryglu lles yr anifeiliaid yn eich gofal.

- Cadwch at safonau bioddidogelwch da yn eich gwenynfa.

- Peidiwch â rhannu offer cadw gwenyn gyda cheidwaid gwenyn eraill, yn enwedig offer y cwch, offer llaw a dillad diogelwch eraill.

- Yn unol â'r cyngor cyffredinol ar COVID-19, dylech olchi'ch dwylo am 20 eiliad o leiaf gan ddefnyddio sebon a dŵr twym cyn ac wedi ichi ddod i gysylltiad ag unrhyw anifail. Defnyddiwch ddiheintydd dwylo os mai dyna'r unig beth sydd o fewn cyrraedd.

- Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn o bryd o ran symud nythfeydd gwenyn – er enghraifft, symud gwenyn ar gyfer contractau peillio. Fodd bynnag, cadwch at ganllawiau iechyd cyhoeddus rhag ichi ledaenu COVID-19 wrth gynnal y gweithgareddau hyn, gan gynnwys y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol a theithio hanfodol.

- Os oes angen ichi ymweld â safleoedd heblaw am rai'ch hunan, dylech fod yn gyfarwydd â'r canllawiau iechyd ar atal a rheoli heintio a dilyn y mesurau i osgoi arwynebeddau wedi'u heintio.

- Os bydd arolygydd y llywodraeth yn dod i archwilio'ch gwenyn, a'ch bod mewn categori risg uchel, neu yn dangos symptomau COVID-19, rhaid ichi adael i'ch arolygydd wybod cyn yr archwiliad. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gyfyngu ar y risg o ledaenu COVID-19. Gallai hyn gynnwys cynnal yr archwiliad heb i'r ceidwad gwenyn fod yn bresennol neu ohirio'r archwiliad.

- Ar gyfer pob archwiliad, rhaid cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr o leiaf ac felly ni chaiff y ceidwad sefyll wrth y cwch gyda'r archwilydd wrth i'r archwiliad ddigwydd.

- Cewch barhau i fewnforio gwenyn. Nid oes tystiolaeth i gefnogi cyfyngiadau ar symudiadau rhyngwladol nac ar fasnachu gwenyn, ac nid oes gan y DU unrhyw reolau ychwanegol o ran mewnforio gwenyn oherwydd COVID-19.

- Dylech hysbysu'r awdurdodau o unrhyw glefydau neu blâu yn y ffordd arferol – gweler y dudalen iechyd gwenyn ar gov.uk am ragor o wybodaeth.

- Defnyddiwch y technegau arferol i geisio rhwystro'ch gwenyn rhag heidio. Os oes rhaid casglu haid, gofalwch eich bod yn cadw pellter cymdeithasol wrth ei chasglu. Os nad yw hynny'n bosibl, yna peidiwch â chasglu'r haid. Ceisio rhwystro'ch gwenyn rhag heidiau yw'r ffordd orau.

19 Hydref 2020